

Withdrawn

This publication is withdrawn.

This publication is no longer current.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ein safonau
gwasanaeth



Adran Gwaith
a Phensiynau

2 Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Cynnwys

- 3 Cyflwyniad
- 3 Y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr
- 4 Y Ganolfan Byd Gwaith
- 4 Y Gwasanaeth Pensiwn
- 5 Ein cyfrifoldebau i chi
- 11 Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi
- 12 Dweud eich dweud
- 14 Sut i gwyno

Cyflwyniad

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gyfrifol am bolisiau lles a phensiynau. Rydym yn rhoi cymorth a chyngor i bobl o oedran gweithio, cyflogwyr, pensiywyr, teuluoedd, pobl anabl a grwpiau sy'n agored i niwed.

Bydd y daflen hon yn dweud wrthyfch:

- pa wasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni
- beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi
- sut y gallwch gysylltu â ni, a
- faint o amser y bydd yn ei gymryd i ni gysylltu'n ôl â chi.

Y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yma i roi cymorth ariannol i bobl anabl a gofalwyr. Rydym yn delio â hawliadau ar gyfer:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Gofalwr
- Credyd Gofalwr
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol, a
- Taliadau Niwed drwy Frechiad.



Cysylltu â ni

www.gov.uk/browse/disabilities

Y Ganolfan Byd Gwaith

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yma i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, tra'n rhoi cymorth i'r bobl hynny na allant weithio.



I wneud cais
www.gov.uk/browse/benefits



Ffôn: **0800 012 1888**
Ffôn testun: **0800 023 4888**

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm



I ddod o hyd i swydd
www.gov.uk/browse/working



Ffôn: **0345 606 7890**
Ffôn testun: **0345 604 4022**

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm

Y Gwasanaeth Pensiwn

Gall y Gwasanaeth Pensiwn roi gwybod i chi am bensiynau a budd-daliadau, p'un a ydych:

- yn cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad
- ar fin ymddeol, neu
- eisoes wedi ymddeol.



Cysylltu â ni
www.gov.uk/browse/working/state-pension



Ffôn: **0345 606 0275**
Ffôn testun: **0345 606 0295**

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm



Ffonio o dramor:
+44 191 218 7777

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am ac 8pm

Gallwch gael llawer mwy o wybodaeth yn ogystal â manylion cyswllt ar gyfer pob un o'n busnesau ar-lein yn **www.gov.uk/cymraeg**

Rydym bob amser yn newid er mwyn diwallu anghenion ein cwsmeriaid. Er bod llawer o'n gwasanaethau yn cael eu darparu dros y ffôn, rydym hefyd yn ei gwneud yn haws i chi gael gafael ar ein gwasanaethau ar y rhyngwrwyd. Byddwn yn annog pobl fwyfwy i ddod o hyd i wybodaeth, gwneud ceisiadau a chwilio am swyddi ar-lein.

Caiff rhywfaint o'r help a gewch ei ddarparu gan sefydliadau eraill (fel darparwyr hyfforddiant) ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Os byddwch yn anfodlon ar y gwasanaeth a gewch gan unrhyw ddarparwr sy'n gweithio ar ein rhan, dylech gysylltu ag ef yn uniongyrchol. Bydd ganddo ei brosesau cwyno ei hun.

Os byddwch yn cael anhawster defnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau, neu os oes gennych ymholiad brys, gallwn drefnu apwyntiad i chi siarad â rhywun cyn gynted â phosibl.

Ein cyfrifoldebau i chi

Rydym am roi'r gwasanaeth gorau posibl i chi. Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rydym am i chi fod yn fodlon â'r cyngor rydym yn ei roi i chi a'r ffordd y cewch eich trin.

Y driniaeth gywir

Rydym yn ymrwymedig i drin pob un o'n cwsmeriaid yn deg. Byddwn:

- yn gyfeillgar ac yn barod i'ch helpu
- yn eich trin â pharch
- yn ymddwyn yn broffesiynol
- yn gwneud yn siŵr bod ein swyddfeydd mor ddiogel â phosibl ar gyfer ein cwsmeriaid a'n staff, ac
- yn parchu eich preifatrwydd.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw bryderon.

Pan fyddwn yn cysylltu â chi

Byddwn yn eich ffonio fel arfer. Os hoffech i ni gysylltu â chi mewn ffordd arall, rhowch wybod i ni.

Pan fyddwn yn ysgrifennu atoch

Pan fyddwn yn ysgrifennu atoch, bydd yr ohebiaeth:

- wedi'i theipio, yn glir ac yn hawdd i'w darllen
- yn dweud wrthych os oes unrhyw beth y mae angen i chi ei wneud, ac
- yn rhoi manylion cyswllt i chi, fel enw a rhif ffôn uniongyrchol person.

Os hoffech gael llythyr mewn print bras, rhowch wybod i ni. Byddwn yn ysgrifennu atoch yn Gymraeg neu Saesneg. Gallwn gysylltu â chi yn y ffordd sydd orau i chi, os byddwch yn dweud wrthym beth ydyw.

Ymweld â'n swyddfeydd

Pan fyddwch yn ymweld â'n swyddfeydd, bydd ein staff:

- yn gwisgo bathodyn enw ac yn eich cyfarch mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol
- bob amser yn ceisio eich gweld ar amser os bydd gennych apwyntiad
- yn trefnu apwyntiad arall cyn gynted â phosibl os bydd angen un arnoch, ac
- yn trefnu ystafell gyfweld breifat os bydd angen preifatrwydd arnoch.

Os byddwch yn ymweld â'n swyddfeydd heb apwyntiad, byddwn yn ceisio eich helpu ar unwaith - yn bennaf drwy ein gwasanaethau dros y ffôn. Os na allwn wneud hynny, byddwn yn trefnu apwyntiad i chi.

Y canlyniad cywir

Ein nod yw rhoi gwybodaeth a chyingor cywir i chi er mwyn eich helpu i:

- cael y pensiynau neu'r budd-daliadau y mae gennych hawl iddynt
- deall yr amodau y mae'n rhaid i chi eu bodloni er mwyn cael eich pensiwn neu fudd-dal, fel mynychu cyfweliadau neu chwilio am waith
- dod o hyd i swydd addas
- deall ein penderfyniadau
- penderfynu beth i'w wneud, a
- cael gafael ar gymorth arall y gall fod ei angen arnoch, fel help i feithrin sgiliau newydd neu help gyda chostau gofal plant neu deithio.

Prydlondeb

Ein nod yw sicrhau ein bod yn darparu ein gwasanaethau mor gyflym â phosibl. Mae hyn yn cynnwys:

- prosesu eich cais mor gyflym â phosibl
- newid eich manylion pan fyddwch yn dweud wrthym am wneud hynny, a rhoi gwybod i chi os bydd y newid yn effeithio ar eich pensiwn neu fudd-dal
- eich ffonio'n ôl neu gymryd eich galwad ar adeg rydym wedi'i threfnu â chi, a
- bod yn brydlon ar gyfer apwyntiad rydym wedi'i drefnu â chi.

Pan fyddwch yn ein ffonio

Bydd ein staff yn rhoi eu henw ac enw'r swyddfa neu'r adran rydych wedi cysylltu â hi.

Byddwn yn eich ffonio'n ôl os byddwch yn poeni am gost yr alwad, neu os na allwn ateb eich cwestiwn yn y fan a'r lle. Os na allwn eich helpu, byddwn yn ceisio eich cyfeirio at y lle cywir i gael help.

Pan fyddwch yn ysgrifennu atom

Pan fyddwch yn ysgrifennu atom, ein nod yw rhoi ateb llawn i chi:

- o fewn **10 diwrnod gwaith** i dderbyn eich llythyr, neu
- o fewn **15 diwrnod gwaith** os ydych yn cwyno am ein gwasanaeth, neu
- o fewn **15 diwrnod gwaith** i Aelod Seneddol (ASau) sy'n ysgrifennu at ein Cyfarwyddwr Cyffredinol ar eich rhan.

Os na allwn roi ateb i chi o fewn yr amser hwn, byddwn yn dweud pam ac yn rhoi gwybod i chi:

- pwy sy'n delio â'ch llythyr
- erbyn pryd y gallwch ddisgwyl ateb llawn, a
- beth rydym wedi'i wneud hyd yma.

Pan fyddwn yn ymweld â chi gartref

Os bydd angen i ni ymweld â chi gartref, byddwn:

- yn gwneud pob ymdrech i ymweld â chi ar amser a gytunir gennych, ac
- yn dweud wrthyich os oes unrhyw bapurau y bydd angen i chi eu cael yn barod.

Bydd ein haelod o staff:

- yn dangos cerdyn adnabod i chi bob tro, ac
- yn rhoi ei enw i chi.

Os hoffech, gallwch roi cyfrinair i ni er mwyn i'n haelod o staff ei ddefnyddio pan fydd yn dod i'ch cartref.

Cael gafael arnom yn hawdd

Rydym am sicrhau y gallwch gael gafael ar ein gwasanaethau'n hawdd. Byddwn:

- yn darparu'r gwasanaeth sydd ei angen arnoch, gan ystyried unrhyw anabledd neu anghenion iaith sydd gennych
- yn cynnig ffyrdd gwahanol o gael gafael ar ein gwasanaethau, fel dros y ffôn, y rhynggrwyd neu ymweliadau â'ch cartref, ac
- yn ceisio eich cyfeirio at y lle cywir os na allwn helpu.

Os oes gennych anabledd

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan ein swyddfeydd:

- dolenni sain a ffonau testun i bobl sy'n cael anawsterau gyda'u clyw neu eu lleferydd, a
- mynediad hawdd i bobl sydd â chyflwr iechyd neu sy'n ei chael hi'n anodd cerdded.

Gallwn hefyd defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain, neu gyfathrebu â chi yn y ffordd sydd orau i chi. Os byddwch yn gofyn am ddehonglydd, ein nod yw trefnu un o fewn **deg diwrnod gwaith**. Byddwn yn trefnu eich apwyntiad cyn gynted â phosibl ar ôl hyn.

Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar y ffordd rydych yn defnyddio ein gwasanaeth, rhowch wybod i ni fel y gallwn ddarparu'r cymorth cywir i chi. Gall hyn olygu eich helpu i lenwi ffurflenni, neu ymweld â chi gartref.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

Rydym wedi esbonio ein cyfrifoldebau i chi, ond mae rhai pethau rydym yn eu disgwyl gennych chi hefyd.

Ymddygiad rhesymol

Gallwch helpu drwy:

- trin ein staff â pharch, a
- bod yn ystyriol a chwrtais.

Rhoi gwybodaeth i ni a bod yn brydlon

Gallwch hefyd helpu drwy:

- rhoi manylion cyflawn a chywir
- rhoi mwy o fanylion os bydd gofyn i chi wneud hynny
- bod yn brydlon ar gyfer apwyntiadau
- sicrhau eich bod ar gael i gymryd galwadau ffôn ar amseroedd rydym wedi cytuno arnynt
- rhoi gwybod i ni os bydd angen i chi gyfathrebu â ni mewn ffordd arall, fel Braille, print bras neu drwy ddehonglydd, a
- rhoi gwybod i ni os bydd angen i chi gael gafael ar ein gwasanaethau mewn ffordd arall, fel dros y ffôn, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb.

Dweud wrthym pan fydd rhywbeth yn newid

Os ydych yn cael pensiwn neu fudd-daliadau a bod eich amgylchiadau'n newid, rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith. Er enghraifft, dywedwch wrthym os byddwch:

- yn symud tŷ (neu os bydd pobl eraill yn symud i mewn i'ch tŷ neu'n gadael)
- yn newid y cyfrif rydym yn talu eich pensiwn neu fudd-daliadau iddo

12 Yr Adran Gwaith a Phensiynau

- yn dechrau gweithio neu'n newid nifer yr oriau rydych yn eu gweithio
- yn mynd yn sâl neu'n mynd i'r ysbyty, neu
- yn cael mwy neu lai o arian yn dod i mewn, fel budd-daliadau.

Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddweud wrthym am newid, gwnewch hynny beth bynnag. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallech golli allan ar arian y dylech ei gael. Neu, gallech gael gormod o arian, a bydd angen i chi ei dalu'n ôl.

Dweud eich dweud

Yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, ein nod bob amser yw darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid.

Rydym yn croesawu pob un o'ch sylwadau, cwynion, neu syniadau am bethau y gallem eu gwella. Mae eich adborth yn ein helpu i edrych ar yr hyn a wnawn a sut y gallem ei wella.

Pan aiff pethau'n dda

Os credwch ein bod wedi gwneud rhywbeth yn dda, rhowch wybod i ni. Gall gwybod ein bod wedi gwneud pethau yn y ffordd gywir i chi ein helpu i wneud hynny i eraill.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o wella ein gwasanaethau. Os bydd gennych syniad a allai ein helpu i wneud hyn, rhowch wybod i ni. Byddwn yn ymateb i'ch sylwadau o fewn **10 diwrnod gwaith** i'w cael.

Pan aiff pethau o chwith

Os credwch ein bod wedi gwneud rhywbeth yn anghywir, neu nad ydym yn delio â chi yn y ffordd gywir, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl. Os byddwch yn dal yn anfodlon ar ôl i chi gysylltu â chi, byddwn yn esbonio beth y gallwch ei wneud nesaf. Mae opsiynau gwahanol yn dibynnu ar y broblem:

- **Cwyno.** Gallwch gwyno os ydych yn anfodlon ar y gwasanaeth a gawsoch gennym. Mae tudalen 14 yn dweud wrthyhych sut i gwyno a beth fydd yn digwydd nesaf.
- **Herio penderfyniad** rydym wedi'i wneud am eich budd-dal. Mae hyn yn wahanol i gwyno. Gweler isod am beth y gallwch wneud os credwch fod penderfyniad budd-dal yn anghywir.

Os credwch fod penderfyniad yn anghywir

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir gallwch apelio ond dim ond ar ôl i chi ofyn am ailystyriaeth o'r penderfyniad. Gelwir hyn yn Ailystyriaeth Orfodol. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn mis o ddyddiad y penderfyniad.

Gallwch yn gyntaf ofyn am ddatganiad ysgrifenedig o resymau am y penderfyniad os ydych yn aneglur pam y gwnaethpwyd y penderfyniad. Eto, mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn mis.

Os gofynnwch am Ailystyriaeth Orfodol byddwn yn gofyn i chi os oes gennych dystiolaeth perthnasol ychwanegol y dylir ei ystyried. Anfonir Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol atoch a fydd yn egluro'r ein penderfyniad. Os na fyddwch yn cytuno gyda hwn, byddwch wedyn yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad.

Mae'r Apêl i Wasanaeth Llysoed a Thribiwnlys ei Mawrhydi. Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan dribiwnlys annibynnol.

Bydd yr hysbysiad penderfyniad budd-dal yn dweud wrthyhych sut i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol, Bydd yr Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol yn dweud wrthyhych sut i apelio.

Sut i gwyno

Os ydych yn anfodlon ar y gwasanaeth a gewch ac os na all y person rydych wedi bod yn delio â hwy ddatrys y mater, gallwch gwyno. Mae'r wybodaeth isod yn dweud wrthy'ch beth y dylech ei wneud.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â digwyddiad yn un o'n Canolfannau Gwaith a hoffech ddefnyddio ffilm Teledu Cylch Cyfyng fel tystiolaeth, mae angen i chi ofyn i ni amdani o fewn saith diwrnod i'r digwyddiad. Nid yw pob un o'n Canolfannau Gwaith yn gallu cadw'r ffilm am fwy na saith diwrnod, ond os byddwn yn gwybod, gallwn gadw'r ffilm am gyfnod hirach.

Rydym yn ceisio ei wneud yn hawdd i chi ddweud wrthym am eich cwyn. Gallwch wneud cwyn atom yn ysgrifenedig, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Byddwn yn delio ag ef cyn gynted ag y bo modd a datrys unrhyw beth rydym wedi cael yn anghywir.

Bydd eich cwyn yn mynd i **Gam 1** er mwyn i Reolwr Datrys Cwynion ei hystyried.



Cam 1

Bydd Rheolwr Datrys Cwynion yn ystyried eich cwyn eto. Bydd yn cysylltu â chi, fel arfer dros y ffôn, i siarad â chi am eich cwyn ac yn cytuno ar sut y bydd yn ymchwilio iddi. Bydd yn cysylltu â chi eto ar ôl iddo orffen ei ymchwiliad i roi gwybod i chi beth mae wedi'i wneud. Rydym yn anelu i ddelio â'ch cwyn o fewn **15 diwrnod gwaith**. Os bydd yn cymryd yn hirach, byddwn yn rhoi gwybod pam ac yn dweud wrthy'ch pryd y gallwch ddisgwyl clywed gennym.

Os byddwch yn dal yn anfodlon ar ôl i'r Rheolwr Datrys Cwynion ystyried eich cwyn, gofynnir i chi a ydych am i'ch cwyn fynd ymlaen i **Gam 2**.



Cam 2

Bydd eich cwyn yn cael ei throsglwyddo i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gweithrediadau DWP, a fydd yn trefnu i'ch cwyn gael ei hystyried. Dim ond cwynion sydd wedi mynd drwy Gam 1 y gall y Cyfarwyddwr Cyffredinol eu hystyried. Byddwch yn clywed gennym o fewn **15 diwrnod gwaith** i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gael eich cwyn.

Archwilydd Achosion Annibynnol

Os ydych wedi bod drwy bob un o'n camau cwyno a'ch bod yn dal yn anafodlon, gallwch ofyn i'r Archwilydd Achosion Annibynnol ystyried eich cwyn, gan anfon copi ohono iddo.

Gall yr Archwilydd Achosion Annibynnol ystyried cwynion am ein gwasanaeth. Ni all ystyried materion cyfreithiol (er enghraifft, ni fydd yn ystyried penderfyniadau ynglŷn â budd-dal na chynhaliaeth, oherwydd gallwch apelio yn erbyn y rhain) na pholisi'r llywodraeth. Os bydd yn derbyn eich cwyn, bydd yn edrych ar yr hyn a ddigwyddodd a'r hyn a wnaethom. Os bydd o'r farn y dylem fod wedi gwneud mwy, bydd yn gofyn i ni unioni pethau. Mae ei wasanaeth am ddim ac yn ddiudedd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:



www.gov.uk/ice



Ffôn: **0845 606 0777**

Independent Case Examiner
PO Box 209
Bootle
L20 7WA

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Gallwch hefyd, ar unrhyw adeg, gysylltu â'ch Aelod Seneddol. Efallai y bydd yn gallu anfon eich cwyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Fodd bynnag, bydd yr Ombwdsmon fel arfer yn disgwyl i chi roi gwybod i ni'n gyntaf eich bod yn anafodlon. Ni fydd fel arfer yn ymwneud â chwyn nes ein bod ni, a'r Archwilydd Achosion Annibynnol, wedi cael cyfle i ymateb.

Mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion lle nad yw sefydliadau'r llywodraeth wedi gweithredu'n briodol nac yn deg neu wedi rhoi gwasanaeth gwael.

I gael rhagor o wybodaeth am yr Ombwdsmon, cysylltwch â:



www.ombudsman.org.uk



Ffôn: **0345 015 4033**

The Parliamentary and Health Service Ombudsman
Millbank Tower
Millbank
London
SW1P 4QP

Dylai sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau roi'r un safon o wasanaeth â ni. Os bydd gennych unrhyw gwynion, siaradwch â'ch darparwr amdanynt. Bydd gan eich darparwr ei weithdrefnau cwyno ei hun y bydd yn eu hesbonio yn ystod eich cyfarfod cyntaf.

Help annibynnol

Os hoffech gael help annibynnol pan fyddwch yn delio â ni neu pan fyddwch am gwyno, gallech ofyn i:

- canolfan gynghori leol fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, neu
- eich Aelod Seneddol (AS).

Dylai eich ymgynghorydd allu dweud wrthyhch ble y gallwch gael cyngor annibynnol yn lleol.

Unioni pethau

Os aiff pethau o chwith, dylem weithredu'n gyflym i'w hunioni. Gelwir y camau a gymerwn i unioni pethau yn 'gwneud iawn'. Gall gwneud iawn gynnwys unrhyw rai o'r canlynol:

- ymddiheuriad diffuant ac ystyrlon
- esboniad o'r hyn a ddigwyddodd a beth aeth o'i le
- unioni pethau, neu
- taliad arbennig.

Gallwn ystyried taliad arbennig os oes rhywbeth rydym wedi'i wneud (neu heb ei wneud) wedi achosi cam neu galedi.

Costau galwadau

Gallwch ddefnyddio'r cod **0845** i ffonio unrhyw o'n rhifau **0345**. Gofynnwch i'ch cwmni ffon pa god sy'n rhatach ichi.

Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau. Gallwch hefyd ofyn i ni eich ffonio yn ôl os byddwch yn poeni am gost yr alwad.

Ffonau testun

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth leol un. Nid yw ein ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ym mis Tachwedd 2014. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a phensiynau ar-lein.



I gael gwybodaeth am fudd-daliadau ewch i:
www.gov.uk/browse/benefits



I gael gwybodaeth am bensiynau ewch i:
www.gov.uk/browse/working/state-pension